# Llên natur

**Bwletin 141**
**Tachwedd 2019**

**gan gynnwys adnodd i athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**



Keith O'Brien, Llyn Trawsfynydd 26 Medi 2019

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

## Gwas neidr mudol




Gwas neidr mudol, Gwarchodfa Natur Rhuddlan, Medi 17, 2019. **Eifion Griffiths**

Tipyn o gamp cael llun da o was y neidr yn hedfan.

**Alun Williams**

## Y bioden (fôr) a'r gigfran



Pioden y môr yn ymosod ar gigfran yn Criccieth, 6 Medi 2018 **Gwilym Arthur Jones**

## Helicoptars



Masarnen, Hydref 2018 (Derec Owen)

## Rhedyn dan draed dan draen




Dwy redynen mewn draen - y tro cyntaf i mi weld *Polystichum setiferum* [gwrychredynen feddal] yn tyfu mewn draen - Abergele heddiw. **Iwan Williams**

Y llall yw tafod yr hudd

## Codau mwg perffurf



**Coden fwg berffurf, Whitffordd, Medi 28**

Yn ôl y we mae 18 math o goden fwg ym Mhrydain ond y goden fwg berffurf yw'r unig un i dyfu yn gyfan gwbl ar bren. Cofio eu defnyddio fel "*smoke grenades*" pan yn chware rhyfel blynyddoedd maith yn ôl! **Alun Williams**

- **Cysylltwch â Llên Natur : llennatur@yahoo.co.uk**
- **Cofiwch : CYMUNED LLÊN NATUR (grŵp Llên Natur) ar Facebook**

## Eira coch



Sylwer ar yr "eira coch" (pinc !) ar lethrau Liskamm 17 Awst 2019. *Chlamydomonas nivalis* **Iolo ap Gwyn**



llun arall o eira pinc, Bettmeralp, Mehefin 2018

**Alun Williams**

Math o alga 'rhewgarol'

https://en.m.wikipedia.org/wiki/Chlamydomonas

## Rhostio cnau castan pêr



Ar ôl i Nia Evans rhoi SOS allan ar Cymuned Llên Natur am leoliad coeden gastan bêr yn eu ffrwythau, dyma ffrwyth ei hymdrechion. Meddai Nia:


> Hela cnau Castan ac yna rhostio nhw!! Bwyd am ddim yn flasus dros ben. Rhai wedi rhewi ar gyfer Nadolig!!





26 Ebrill 1793 Niagara, Upper Canada Nodiadau: *"A very wet night. It rained into the huts, but I found one corner of the room dry, and there I placed my bed....The Indians bring us cranberries in spring and autumn which are as large as cherries and as good; the best grow under water. They also supply us with chestnuts, which they roast in a manner that makes them particularly good."* **Dyddiadur Mrs John Graves Simcoe**

## Côt yr hen longwr



Oes `na rhywun arall yn defnyddio " Cot yr hen longwr " [am glytyn o awyr las fel yng ngornel chwith uchaf y llun] **Derec Owen (Sir Fon)**

**Minah Drew** Mymryn o awyr las = digon i wneud trowsus llongwr. De Sir Ddinbych.

**Meiriona Williams** Ychydig o awyr lâs,ddigon I w end trwsus I longwr,D Conwy

**Siân Eleri Roberts** Roedd Mam yn dweud y byddai'n codi'n braf pe bai digon o awyr las i wneud trowser llongwr, ardal y Cei [Lle?]

**Awen Hamilton** ateb I SER: "Megan, fy mam-yng-nghyfraith, hefyd yn deud hyn" [Lle?]

**Sioned Williams** Wedi clywed 'siwt llongwr' yng ngogledd Môn.

**Dwynwen Roberts** Mi oedd Nain (Porthaethwy) yn arfer gofyn "oes yna ddigon o awyr las i wneud siwt llongwr?"

## Y naid tragwyddol?



Eogiaid yn nofio fyny rhaeadr bach ar afon Lledr ger Betws y coed 16 Hydref 2019 o'na lwyth yn trio mynd fyny, werth ei weld. **Gerallt Roberts**

*10 Medi 1883 Dolgellau Rain again in the night and early this morning ...drove in the coach to Dolgelley ... took a car from there and drove to the New Bridge. ...I did not rise a fish all day, but I saw several salmon jumping. I also tried minnow.* **Dyddiadur Hela CEM Edwards**

## Barrug awyr yn mynd yn llai cyffredin?

Dyddiau "oer" yn gynhesach na 70 mlynedd yn ôl. Barrug awyr ar dir isel (brigau coed yn wyn) yn mynd yn brinach. (https://www.theguardian.com/.../weatherwatch-cold-winter-days...)

Mae pawb yn tynnu lluniau o hyn. BETH AM EU CASGLU AT EI GILYDD - ewch yn ôl yn archif eich albwm personol - o luniau eich plentyndod i'r rhai diweddaraf. Cofiwch ddweud PRYD a LLE.... a dyma'r amser i ddechrau sylwi ar rai newydd.




Betws y Coed, 26 Rhagfyr 2007 **Duncan Brown**



Betws y Coed, 12 Rhagfyr 2012. **Alun Williams**



Solihull c15 Rhagfyr 2012. **Sue Lindsay**



Betws y Coed 12 Tachwedd 2012. **Alun Williams**



Malltraeth, 14 Ionawr 2012. **Paula Roberts**



Afon Clwyd rhwng Dinbych a Llandyrnog, Rhagfyr 11, 2017 **Alun Williams**



Rhuthun? 28 Rhagfyr 2009. **Gwyn Williams**



Waunfawr (ffenest car) Nadolig 2009 **Duncan Brown**

| Lle | Pryd | Pwy |
|---|---|---|
| Betws y Coed | 26/12/2007 | Duncan Brown |
| Waunfawr | 12/2009 | Duncan Brown |
| Rhuthun | 28/12/2009 | Gwyn Williams |
| Malltraeth | 14/1/2012 | Paula Roberts |
| Betws y Coed | 12/11/2012 | Alun Williams |
| Solihull | c.15/12/2012 | Sue Lindsay |
| Afon Clwyd | 11/12/2017 | Alun Williams |

**Dewch a'ch lluniau o farrug awyr, heddiw neu 'stalwm - does dim rhaid iddynt fod yn "artistig"**

# Cath wyllt Caernarfon



Mae cyfeillion yng Nghaernarfon wedi tynnu ein sylw i "gath wyllt" wedi ei stwffio yn seler Institute Cyngor y Dref (CTC). Mae'r ffeil ar ben y cas yn faint A4 fel mesur ohono. Dwi wedi bod yn bysnesu ac mae mewn cyflwr da iawn o be wela'i ond does dim math o label yn anffodus. Dwi'n hapus mai cath wyllt (mawr) ydio er na welish i un erioed - ond be mae o'n gwneud lle mae o?! Dwi'n cymryd mai prynu a gwerthu yn Oes Fictoria gan fân-fonedd y plasdai rhwng yr Alban a Chymru sydd i gyfri am ei daith yma, ond dio'm yn amhosib chwaith mai "cath goed" Cymreig ydi'o. Oes gennych chi farn? Dyma ddywed Anne Venables [bio]: "*The institute set up a museum/collection in the 1890s (?). The contents were gradually dispersed, with the bulk going to Bangor University. This cat could well be a remnant from that museum*"

Mae yna gonsyrn yn y dref y bydd y sbesimen rhyw ben yn cael ei luchio os fydd gwaith yn cael ei wneud ar yr adeilad onibai iddo gael cartref da. Byddai'n dda perswadio rhyw amgueddfa i'w dderbyn. Oes rhywun efo hanes byw neu weithio yng Nghaernarfon sydd yn gallu dweud mwy am hanes y sbesimen hwn? Byddai'n dda casglu sampl o'i flew a'i groen i gael proffil DNA ohono yn bendant.





Fig. 2.1. Distribution of the wildcat in Great Britain in a) 1800, b) 1850, c) 1880 and d) 1915. Cross-hatching indicates common or widely distributed, horizontal shading indicates rare, declining or localised. White areas indicate extinct or data lacking, extinction presumed (Langley & Yalden 1977).

Mae map Langley a Yalden (chwith) yn awgrymu bod y gath goed wedi marw allan yng Nghymru rhwng 1850 ac 1880 sydd yn ei gwneud hi'n bosibl mai sbesimen Cymreig yw "cath wyllt Caernarfon". Wrth gwrs mae'n bosib ei bod hi wedi tindroi yma yn gudd am ddegawdau ar ôl hynny.

**Y Gath Goed yng Nghymru.** Yn y Naturalists Chronicle 1898 cawn nifer o hen gofnodion plwyf y llyfr-festri yn Nolwyddelan, Sir Gaernarfon gynt:


*"There are a great number o entries relating to rewards for the killing of vermin and a regular tariff seems to have been paid. For example - 1764: For killing two W. Cats, 1s.: Ditto to John Williams for killing a Wooden C (sic !), 6d. 1769: Two foxes and Wild Cats, 7s. 1770: Two Wild Cats, 1s."*

**H. E. Forrest 1907**

# Morfil trwyn potel y gogledd oddiar Cricieth







Morfil trwyn potel ogleddol (*Northern bottlenosed whale*) yn Criccieth heno 02/10/2019, Lluniau ddim yn hollol glir oherwydd pellter yr anifail

**Gwilym Arthur Roberts**

Roedd y morfil trwyn potel ar y mor yn agos i'r lan oddiar Criccieth tua 2.50 pnawn 'ma. Mi dorrodd yr wynab dwy waith tra roedd yn anelu tua'r Gorllewin. Dim ond oddeutu hanar milltir o'r gastell. 29 Medi **Elfyn Lewis**



Dyma un a olchodd fyny yn Gronant 10/10/2009. Cafwyd y post mortem ar traeth gan tim CSIP ar y 11/10/2009.




Morfil trwyn potel ar y Traeth Coch, Mon, 1986.

Gyda'r uchod mae yna 17 o gofnodion morfil trwyn potel yn y Tywyddiadur yn mynd yn ôl i ganol y 19G: https://tinyurl.com/y652ss6a

*"In the Zoologist, 1878, is a full account, with measurements, of a female Bottle-nosed Whale which was killed in the Menai Straits, 15th of September 1877. It was twenty-four feet long, and was accompanied with two others, which the writer, Mr Henry Lee, conjectures might be the male and young. A small one was cast ashore at Carnarvon a few days later, but was not identified."* **H. E . Forrest, 1907**

## Blodyn Wansi


• ysgallen, ysgall | ƷS-GÁX-EN, ƷS-GAX | CARDO, CARDOS
• cenhinen Bedr, cennin Pedr | KEN-HÍN-EN-BÉD-ƷR, KÉN-IN-PÉD-ƷR | NARCISO, NARCISOS
• celynen fach, celyn bach | KEL-ƷN-EN-VAJ, KÉ-LIN-BAJ | QUILIMBAY
rhosyn, rhosys | RHÓS-IN, RHÓS-IS | ROSA, ROSAS
dant y llew | DANT-Ʒ-XÉ-U | ACHICORIA
blodyn Owen C. | BLÓD-IN-O-U-EN-SÍ | 'WANCY'
[planta traída al Valle por Owen C. Jones. De ahí que se la conoce por este nombre, o sea 'Flor de Owen C.']
• coeden boplar, coed poplars | KÓ-ID-EN-BÓP-LAR, KÓ-ID-PÓP-LARS
• helygen, helyg | HEL-Ʒ-GUEN, HÉL-IG
• coeden onnen, coed ynn | KÓ-ID-EN-ÓN-EN, KÓ-ID-ÍN
• pinwydden, pinwydd

Hanesyn gan Ann Corket am y pupurllys llwyd <u>*Lepidium draba*</u> ym Mhatagonia sy'n dwyn yr enw WANCY (Owen C) [ynganer Wansi mae'n debyg] ar ôl Owen C. Jones, cyflwynydd posib y planhigyn i'r cyfandir:


Llun: Wikipedia

"Wedi darganfod bod enw *Lepidium draba* ym Matagonia, hyd yn oed yn Sbaeneg, ydy wancy, gan mai Owen C Jones a ddaeth ag o'n gyntaf i'r wlad. Oes 'na ryw rinweddau arbennig i'r planhigyn fyddai wedi'i wneud yn addas i ddod ag o i'r ardal? Pam fyddai pawb yn ei alw'n "flodyn Owen C"? Caf yr argraff ei fod yn chwyn.

Cymeraf i Owen C. ddod ag o i'r wlad yn fwriadol; tybed pam? Oedd o'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol rywsut? Mae'r llun yn dod o "!Hable Gales!; Siaredwch Gymraeg" gan Sian Reynolds ac Iain o'hAnnaidh, dim nodyn o'r cyhoeddwr na'r dyddiad cyhoeddi."

**trwy law Ann Corkett**

"<u>*Lepidium draba*</u> *Hoary cress; Mediterranean, Eurasian – pungent seeds form a pepper substitute, invasive GB (introduced 1809 in straw bedding from Netherlands), and US, spreading by suckers.*"

**O DJ Mabberley (2008) Mabberley's Plant Book: a portable dictionary of plants, their classification and uses (CUP)**

Nid oes cyfeiriad ato yn Ne America gan Mabberley. Oes yna fwy o wybodaeth am hanes OCJ, chwi arbenigwyr Y Wladfa?

## Welsh ledis



Fuchsia, *Fuchsia magellanica*, ffiwsia eg ffiwsiâu, Ffwsia, Coeden Drops, Dagrau Mair, Dropsan Ffiwsia **Y Bywiadur**

**Dwynwen Roberts** Pops oedda ni'n arfer ei galw. Medru bwyta'r eirin!

**Tecwyn Owen** Arferai mam (Niwbwrch Môn) eu galw yn 'dagrau'r Iesu'

**Joan Louise** Welsh ladies fydda mam yn galw nhw .

24 Gorffennaf 2006 Waunfawr: "mwyalchod yn gwledda ar ffrwythau'r coed drops yn yr ardd" **DB Y Tywyddiadur**

## Gaeaf caled?




Ydi gymaint o aeron coch yn golygu gaeaf calad o'n blaen? Erioed wedi gweld gymaint ag eleni **Sharon Jones-Williams**

Mae'n werth meddwl am funud sut fath o broses byddai coeden yn gallu ei ddefnyddio i ddarogan tywydd sydd i ddod. Dwi ddim yn gallu meddwl am unrhyw un heblaw majic....!

## Dau lygad yn gwylio....






"Llygaid diawl, dan garreg", medd un dywediad ond efallai mai, "A fo ddigywilydd, a fo ddi-golled", yw un arall mwy pwrpasol.

**Hefin Williams**

Ma'n talu cadw llygaid yn agored wrth grwydro yn y wlad 07 Awst 2018 **Lluniau: Gwilym A Roberts**

## Byw heb draed





Llyffant dafadennog a welais yn yr ardd (Ffestiniog) oedd wedi colli ei ddwy droed ol , yn amlwg ers tro, ar briwiau wedi iachau'n berffaith

**Gwilym A Roberts**

Credaf fod madfall dŵr yn gallu aildyfu coes ond na all llyffant. Mae madfall wrth gwrs yn gallu aildyfu ei chynffon i ryw raddau (nid cystal â'r gwreiddiol) ond ni all madfallod aildyfu coesau.

**Jackie Willmington**

Adeg paru mae’r golled yn mynd i fod mwy amlwg , gwaith trafeilio at y pwll magu hwyrach, ond mae y golled yn mynd i fod yn mwy amlwg pan mae’r llyffant yn gorfod gafel yn dyn yn y fenyw gan ddefnyddio y coesau blaen, ac yn dibynnu ar y coesau ol i gadw unrhyw fath o reolaeth yn y dwr.

**Gwilym A Roberts**

## ....’ta chwech (‘ta deg)?





Wrth deithio gynna mi welon ni dylluan wen. Yna ar y ffordd nol, roedd 5 yn yr un lle. Yn anffodus nes i ond llwyddo i gael 3 yn yr un llun (roedd un arall yn y goeden uwch fy mhen a'r llall ar ymyl y lôn). Heno, Hydref 12, SH490752 (Talwrn, Sir Fôn).

**Euros ap Hywel**

# Damwain Bryn Pydew- effeithiau rhew!

**Mae'r hanes yma yn dilyn cais ym Mwletin Hydref am wybodaeth am ddamweiniau awyrennau lleol yn y Gogledd.**




Halifax HR723 QY-P

Ar y 27ain. o Hydref, 1944, 'roedd criw o saith wedi hedfan o Wombleton yn Swydd Efrog mewn awyren Halifax i Reading a Chaerfaddon a thros Fôr Hafren yn Ne Lloegr. Gwŷr o Ganada oedd chwech ohonynt a Sais oedd y seithfed, sef y peiriannydd, Sarjiant Jack Wagstaff. Flt/Lt Harold D O'Neill oedd y peilot, F/O Jim Dunlop oedd y cyfeiriwr, F/O W A Steele yn gyfrifol am ollwng y bomiau, F/O Hank Ferris yn gyfrifol am y radio a dau arall, Sarjiant Mike Gurika a Sarjiant Norm Millar yng ngofal y gynnau. Ar y ffordd yn ôl cododd problemau. 'Roedd yr awyren i fod i hedfan ar uchder o 17,000 o doedfeddi, ond oherwydd effeithiau rhew, doedd y 'superchargers' ddim yn gweithio'n iawn a chollwyd pwer. Ceisiwyd newid cwrs droeon i osgoi'r cymylau cumulus-nimbus, ond yn ofer.Yn anffodus, roedd yr awyren yn disgyn yn is ac yn is ac fe baratowyd y criw i wisgo'u parasiwtiau a bod yn barod i neidio allan! Erbyn hyn roedd yr awyren yn ardal Conwy ac anfonwyd SOS gan Ferris ar y radio. Roedd nifer o bobl Cyffordd Llandudno yn ymwybobol o'r ddrama uwchben. Cyn neidio allan, ceisiodd y peilot, O'Neill, anelu'r awyren am y môr, ond troi mewn cylch a wnai, a'r troad olaf dros y Gogarth Fach i gyfeiriad Bae Colwyn. Trawodd y ddaear am 23.35 yn ardal Bryn Pydew gan deithio o gyfeiriad y môr a phlymio ar dir Fferm Bodysgawen, cartref Mr a Mrs Zachariah Jones a'u mab John Glyn oedd yn bymtheg oed.



H O'Neill



*Fferm Bodysgawen heddiw*

**Atgofion John Glyn Jones**



Wedi i'r hanes gael ei gyhoeddi yn 'Y Pentan', cysylltodd John Glyn Jones (sydd bellach yn 89 oed) â'r papur. "Y noson dyngedfennol honno roeddwn yn cysgu yn y siambr a'm rhieni yn y llofft uwchben. Daeth Mam i lawr yr ysgol a neffro ar ôl clywed Pero'r ci yn cyfarth. Edrychais drwy'r ffenestr a rhyfeddu o weld iâr y tu allan am 11.30 yh. Roedd adain yr awyren wedi taro tas wair a'i rhoi ar dân a dyna sut yr oedd yr iâr yno. Bu clec fawr a dihangodd Mam o dan y bwrdd i ymguddio! Dyna'r adeg y trawodd y gweddill o'r awyren y ddaear. Yna clywyd sŵn curo ar y drws. Tudor Roberts ac Aneurin Jones oedd yno ar eu ffordd o chwarae Chwist ac yn ceisio rhybuddio'r teulu. Bu Tudor Roberts yn ddewr iawn yn ceisio gollwng y ceffyl yn rhydd o'r stabl a chafodd lygad ddu am ei drafferth! Pan wawriodd y bore wedyn, gwelsom faint y ddifrod. Doedd gan y teulu ond dau degell a thebot, ond doedd dim bwyd o gwbl! 'Roedd y gornel o'r tŷ oedd agosaf at y beudy wedi llosgi. Roedd fy nghwningod wedi diflannu ac yn ôl pob tebyg wedi llosgi'n llwyr. Bu Pero'r ci ar goll am rai dyddiau a phan ddychwelodd 'roedd rhan o'i got wedi llosgi!"

**Beth ddigwyddodd I'r criw?**

Yn Afon Conwy y syrthiodd Jim Dunlop. Clywodd lais ar y lan a nofiodd i'r cyfeiriad. Richard Price, prif arddwr Benarth oedd yno yn aber Afon Gyffin, ger y Castell. Llwyddwyd i'w dynnu ar y creigiau a'i achub. Aed ag ef i'r tŷ am fath a dillad sych a hysbysu'r awdurdodau.
Daeth Bill Steele i lawr yn y mwd ar ochr Cyffordd o'r afon a bu'n rhaid iddo ymlwybro heb ei sgidiau i orsaf y rheilffordd yng Nghyffordd Llandudno. Yno'n ei ddisgwyl roedd Sarjiant Gurika oedd wedi glanio tua'r un fan.



Fferm Hendre Wen

Glaniodd Millar a Wagstaff ar gaeau Fferm Hendre Wen, Lôn Pabo, Cyffordd Llandudno, yn agos at Ffordd A470 heddiw. Gwelwyd hwy gan Tom ac Elizabeth Davies. Aethant â'r ddau ddyn i'r ffermdy at Richard a Lilian Owen a'u merch fach Anwen, (Mrs Anwen Hughes, Hendre Creuddyn, wedyn). Yn ôl Mrs Lilian Owen roedd Millar wedi troi'i ffer ac wedi colli ei sgidiau. Cafodd fenthyg 'slipars' Richard Owen. Y peilot, Harold D' O'Neill, oedd yr olaf i adael yr awyren ac fe laniodd o ger Ffordd Dinerth, Llandrillo. Darganfuwyd corff Hank Ferris, gŵr y radio, ble mae Stablau Pinewood ar Ffordd Sychnant, Conwy. Nid oedd wedi clymu strapiau harnes y parasiwt, ac o ganlyniad, pan agorodd hwnnw, fe syrthiodd Ferris yn syth i'r ddaear a'i ladd.



Hank Ferris

*Gareth Pritchard*

Llên natur